Cylchlythyr **Creu'r Cysylltiadau**

Rhifyn 1 • Rhagfyr 2006

Beth yw Creu'r Cysylltiadau?

Mae'r chwech Awdurdod Addysg Lleol sy'n rhan o Gonsortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru (swamwac) wedi bod yn cydweithio ar amrywiaeth o brosiectau ers 2000. Mae'r consortiwm am ddatblygu cydweithio pellach. Bydd Cynllun Gweithredu, Strwythur Llywodraethu a Chynllun Cyflwyno yn eu lle erbyn 31 Mai. Mae 16 Grŵp Gweithrediadol y Consortiwm (GGC) wedi dechrau gweithio ar y cyd. Creu'r Cysylltiadau yw un o'r prosiectau sydd o fewn cylch gorchwyl Bwrdd Rhanbarthol y De-orllewin.

Grwpiau Gweithrediadol

Rheoli Perfformiad Penaethiaid

Ailfodelu'r Gweithlu

DPP

Rhwydwaith Dysgu

Ysgolion yn eu Cymunedau

Adnoddau Dynol (Addysg)

Pontio

Gwasanaethau Ymgynghorol

AAA/Cynhwysiad

Cyfnod Sylfaen

RAISE

Gwasanaethau Cerddoriaeth

Addysg Awyr Agored

Prydau Bwyd /Arlwyo Ysgolion

Cynllunio Lleoedd Ysgol

CAD/CAM

Mae pob grwp gweithrediadol yn cynnwys cynrychiolydd o bob AALl a chynrychiolydd cydlynu prosiect o'r tîm prosiectau. Gellir gweld enwau'r aelodau o bob grwp ar y wefan.

Gwefan
Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru
www.swamwac.org

Y Tîm Prosiectau

Mae gan bob aelod o'r tîm rôl benodol a chysylltiadau â'i awdurdod.

Pauline Lewis
Cydlynydd

Eileen Bellamy
Arweinydd Tîm
Powys

Siân Lewis
Adnoddau Dynol
Abertawe

David Sutherland
Cyllid
Castell-nedd Port Talbot

Val Scurlock
Gwella Ysgolion
Sir Benfro

Huw Roberts
Prifathro
Castell-nedd Port Talbot

Catherine Woodward
Cysylltiad â Cheredigion

Roger Pearce
Cysylltiad â Sir Gaerfyrddin

Lansio Creu'r Cysylltiadau

Daeth can cynrychiolydd at ei gilydd yng Ngwesty'r Ivybush ar 18 Medi i ddysgu am eu rolau ym mhrosiect Creu'r Cysylltiadau. Yn y prynhawn rhoddwyd cyflwyniadau gan ddau gyfarwyddwr o'r Consortiwm, Richard Parry a Gareth Jones, yn ogystal â chan aelodau o'r Tîm Prosiectau.

Dyfyniadau o Areithiau'r Cyfarwyddwyr

"Mudiad llwyddiannus, effeithlon a chydweithredol yw Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru sydd â phrofiad o weithio'n agos gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac sydd wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol mewn meysydd fel Asesu Trothwy Athrawon, Rheoli Perfformiad Athrawon a Phenaethiaid, Ailfodelu'r Gweithlu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Mae pob awdurdod yn y consortiwm yn cydnabod manteision gweithio mewn consortiwm."

Richard Parry

"Mae gennym y cyfle i ddatblygu model cydweithredu a fydd yn addas at ei ddiben, yn gydbwysedd rhwng y lleol a'r rhanbarthol, a fydd yn gwerthfawrogi arbenigedd a chyfraniad staff o bob awdurdod. Bydd hyn yn gwneud y defnydd gorau o gydweithio ac, ar yr un pryd, yn parchu ethos a nodweddion unigryw pob awdurdod sy'n cymryd rhan."

Gareth Jones

Gofynnwyd i'r cynrychiolwyr ystyried cryfderau gweithio mewn partneriaeth ac unrhyw rwystrau i'r fath gydweithio.

At ei gilydd roedd cryfderau gweithio mewn partneriaeth a nodwyd yn ymwneud â rhannu a chydnabuwyd canlyniadau diriaethol.

Nodwyd problemau ymarferol a gwleidyddiaeth/diwylliant AALl fel rhwystrau i weithio mewn partneriaeth.

Gwerthfawrogodd y cynrychiolwyr y cyfleoedd i drafod a dod o hyd i'r ffordd ymlaen gyda chydweithwyr o awdurdodau eraill.

Rhai Cryfderau Gweithio mewn Partneriaeth

- ✓ mwy o allu
- ✓ rhannu arbenigedd ac adnoddau, arbedion maint
- ✓ rhannu arfer da
- ✓ rhannu cyfrifoldeb, rhoi sicrhad
- ✓ cyfleoedd rhwydweithio
- ✓ ehangu safbwyntiau
- ✓ osgoi ailddyfeisio'r olwyn
- ✓ gwneud bywyd yn fwy diddorol
- ✓ cysondeb cymhelliadol
- ✓ dealltwriaeth well
- ✓ canlyniadau gwell i ddisgyblion
- ✓ arbenigaethau ehangach
- ✓ torri ffiniau

Rhai Rhwystrau i Weithio mewn Partneriaeth

- ✓ anawsterau daearyddol
- ✓ diffyg hunanlywodraeth
- ✓ diffyg cyfathrebu
- ✓ hunanddiddordeb sefydliadol, meddylfryd seilo
- ✓ gwahaniaethau iaith
- ✓ ffydd ac ymddiriedaeth yn ei gilydd
- ✓ anghenion gwahanol
- ✓ dod o hyd i weledigaeth y gellir ei rhannu
- ✓ amser a gallu
- ✓ disgwyliadau traddodiadol, disgrifiadau swyddi
- ✓ ethos unigryw awdurdod
- ✓ rhannu cyfrifoldeb
- ✓ rhannu cyllidebau
- ✓ diffyg posib o onestrwydd
- ✓ diffyg rhannu
- ✓ bygythiad i wasanaethau yn y dyfodol

Rhai Sylwadau o Werthusiadau o'r Lansiad

Beth oedd yn dda?

Cwrdd â chydweithwyr o awdurdodau eraill a thrafod a rhannu gyda nhw.

Y cyflwyniadau a'r cwestiynau.

Datblygu dealltwriaeth o hanfodion y peth.

Trosolwg da o'n sefyllfa bresennol fel chwech awdurdod.

Gweld bod pob awdurdod yn ymroddedig.

Beth nad oedd mor dda?

Y bwffe llwyd.

Dim digon o amser am waith grŵp.

Ystafell yn oer iawn.

Acwsteg gwael.

Anawsterau o ran bod yn aelodau o fwy nag un grŵp.

Cartref Newydd swamwac

Yn ystod yr wythnos a ddechreuodd ar 6 Tachwedd, symudodd swyddfeydd swamwac o Glydach, Abertawe i adeilad yr Hen Goleg yng Ngholeg y Drindod, Sir Gaerfyrddin.

Manylion cyswllt
Ffôn: 01267 676840
E-bost:
makingconnections@swamwac.org
swamwac
Coleg y Drindod
Caerfyrddin
SA31 3EP

Cynhelir cyfarfodydd grŵp yma neu mewn ystafelloedd mewn unrhyw un o'r chwech awdurdod.